# Glas

Rhif 215

Ionawr 2026

Llên natur

Cymdeithas Edward Llwyd

Bwletin misol

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd




Llun Wynne Evans
23 Tachwedd 2025

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

## 7800

# Aelodaeth Cymuned Llên Natur wedi cyrraedd 7.8K, 700 o aelodau ychwanegol ers Mai 2025

**Gyda'r diddordeb yn fawr ac yn amlwg ym maes yr amgylchedd, oes gan rhywun eiriau doeth i esbonio pam fod y cyfryngau prif-lif (radio, teledu, cylchgronnau) mor gyndyn o ymateb i'r diddordeb hwn gydag adnoddau a dychymyg?**

Tydi o ddim yn creu elw iddynt. **Bedwyr Owen**

Yn ystadegol, gyda 7000 yn ymddiddori yma allan o boblogaeth o 3 miliwn, mi fydda'r cyfryngau prif ffrwd yn dadlau fod mwy na digon o sylw o ran cyfran darlledu ar draws eu platfformau'n cael ei roi i'r pwnc gyda Iolo, Packham ag Attenborough! Ond hefyd gyda chyllidebau'n crebachu, mae'n sicr yn gwasgu ar ffilmio cost uchel rhaglenni natur a'r amgylchedd.

**Alun Elidir**

■ Rydym yn son am ddiddordeb drwy'r iaith Gymraeg, siawns yn y cyd-destun yma, nid yw dau o'r tri a enwir yn medru cynnig hynny. Mae agweddau eraill o faterion 'cefn gwlad' yn cael sylw haeddianol - amaeth, er engraifft (ag nid wyf yn gwarafun y sylw hynny, maent yn rhaglenni safonol). Pam fod rhaid i raglenni 'natur a'r amgylchedd' fod yn fwy drud i'w cynhyrchu?

**Iwan Roberts**

☐ "Pam fod rhaid i raglenni 'natur a'r amgylchedd' fod yn fwy drud i'w cynhyrchu?"... yn hollol Iwan. Pwysleisiais 'dychymyg'. Onid yw Teledu Telisgop (yr unig gwmni Cymreig a Chymraeg sydd â chymwysterau yn y maes?) mewn lle da i ddatblygu hwn fel *"genre"*? Gwerthfawrogi sylw 'mewnol' Alun Elidir ond mae'n rhaid gofyn 'a ydi'r rheolwyr a'u staff (ag eithrio Alun ei hun yn amlwg) yn gyffyrddus ac yn gybyddus â difrifoldeb yr *"issue"*, fel y mae nhw o bel-droed er enghraifft. Wedi'r cyfan, er y 'gwadiaeth' cynyddol ar draws y byd, ac yn wahanol i bob *"issue"* arall sy'n cystadlu am blatfform, mae'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur yn ddirfodol *(existensial)* ac yn waelodol i ddyfodol llewyrchus - os dyfodol o gwbl - ein pobl iau o leiaf. Bachwn y cyfle... **DB**

■ Ai 7000:3000000 yw'r gymhareb gywir fel mae Iwan yn cwestiynu. 7k:500k sy'n agosach ati, sef y demograffig o rai Gymreig *a* Chymraeg. Ac onid ydi hwn ond yn 'bigyn y mynydd rhew' o ran y diddordeb sydd yna go iawn? **DB**

☐ Cydnabod fod y raddfa gymharu'n gallu amrywio, 550k falle alle fod â diddordeb yn y safle hon, ond yn sicr maent yn mynd i wylio Packham & co. yn ogystal â Iolo, mae'r rhaglenni'n ddrud o ran cost amser, yn amlwg gyda phethau prin, mae weithiau'n cymryd wythnosau i'w canfod i'w ffilmio. Bydde'n ddifyr gwybod faint o syniadau her-hinsawdd sy'n cael eu cynnig gan gwmnïau annibynnol fel Telesgop (yn hytrach na rhai sefydliadol Prydeinig fel y BBC, gyda'i gogwydd gwleidyddol dan afael caniatawyr y ffi drwydded, er y gellid dadlau fod hyn yn wir am S4C, sy'n derbyn ei chyllid bellach drwy'r beeb!), achos dewis y comisiynwyr sy'n cyrraedd y sgrin, carfan fach sydd ddim yn enwog am eangfrydedd. Mae amgylchedd a newid hinsawdd yn cael ei weld fel pwnc arbenigol hefyd, gyda phrinder cyfrannwyr sy'n siarad Cymraeg... ond gellid dadlau fel Duncan mai diffyg dychymyg geir yma. O ran y wasg Gymreig, mae'n gydnabyddedig wan ac arwynebol. **Alun Elidir**

## Diwrnod maes



Gwers awyr agored tua 1905 ar lethrau'r Cefn Du

**Dwi ddim wedi bod yn athro ers hanner can mlynedd ond fûm i'n ymwneud rhywfaint ag ysgolion tan yn llawer mwy diweddar a dwi'n ei chael yn anodd dychmygu unrhywbeth tebyg i hyn yng Nghymru heddiw. Hwyrach bod yna ymweliadau maes i wneud astudiaethau ecolegol (fysa hynny'n well fyth) - ond oes yna rai Cynradd yn bodoli…? Cywirach fi, da chi!**

(Llun o erthygl Dafydd Whiteside Thomas yn rhifyn cyfredol papur bro Eco'r Wyddfa)

# Dirgelwch yn parhau



**Ydi gweld chwd y sêr adeg yma'n arferol, heddiw yn Caecoch, Rhydymain ?** (10 Tachwedd 2025) **Alun Elidir**

Dwi wedi gweld yr un peth ers tua tri diwrnod ar Gomin Uwchgwyrfai ger Capel y Bryn. **Gwyn Edwards**

Rydwi wedi gweld peth ar tir Bwlch y Llyn pythefnos yn ôl. Diddorol iawn. **Tish Gaffey**

Hefyd, ar lôn uwchgomin yn Rhosgadfan. **Steve Williams**

O gymryd yr esboniad mwyaf credadwy a thebygol (a lleiaf rhamantus!) dychmywch grëyr neu ddyfrgi yn hela llyffantod. Ar rhyw adeg o'r flwyddyn (tua rwan?) mae'r llyffant yn dechrau datblygu grifft yn ei gorff at y gwanwyn. Wrth ei agor i'r awyr a'r tamprwydd ar ôl i'r crëyr wneud ei waetha mae'n chwyddo (fel fydd grifft llyffant arferol nes ymlaen pan mae'r wyau du wedi datblygu). Serch hynny mae esboniadau arallfydol yn lot mwy o hwyl on'dydyn? **Llên Natur**

## Grifft sêr - y dirgelwch

**Grifft sêr**

Dyma ddisgrifiad Myrddin Fardd o "grifft ser" yn ei gyfrol Llên Gwerin Sir Gaernarfon 1908: "Math o sylwedd glas-wyn tryloew, meddal, a ddisgyn, meddir ar amserau o'r sêr. Dywedir ei fod yn fuddiol i wella amryw glefydau - atal effeithiau swynyddiaeth &c".




Ceir amrywiaeth o enwau Cymraeg arno: chwyd awyr, chwydredd sêr, godro'r sêr, llwtrach yr awyr, pydredd y sêr (pwdre sêr/wtre'r sêr), syrth (y) sêr, yn ôl T.H.Parry Williams, a tripa'r sêr [*tripe*?] gan rai o bobl Morgannwg. Gan fod y werin bobl yn ei gysylltu â sêr cynffon a meteorau wedi syrthio i'r ddaear rhoddwyd yr enw Lladin *Tremella meteorica* arno gan wyddonwyr.

Yn ôl Geiradur Cymraeg y Canon Silvan Evans y mae cyfeiriad ato ymysg meddygyniaethau Meddygon Myddfai at wella defaid a dywed y Parchedig D.G.Williams, Ferndale yn ei gasgliad o Lên Gwerin Sir Gaerfyrddin (1895) bod gan 'wtre'r sêr' 'ddylanwad rhyfeddol i wella defaid .Y syniad yw mai o sêr y cwymp y sylwedd hwn ar y ddaear a defnyddir ef fel eli i'w rwbio ar y defaid.

Dywed rhai ei fod yn caneitio ac yn goleuo yn y tywyllwch, ond nid oes gennyf dystiolaeth bersonol o'i weld yn y nos. Yn rhyfedd iawn, nid yw'r arbenigwyr yn gytun ar beth yw'r jeli hwn. Ymhlith yr esboniadau eraill a gynigir ganddynt ceir 'chwyd adar' ar ôl iddynt fwyta llyffaint a'u grifft, math o ffwng neu gen, neu lwydni llysnafog, sbwriel wedi ei daflu o awyren, chwyd gwrachod a gweddillion bwystfilod atmosfferaidd! Tybed a oes esboniad arall gan rywun i'w gynnig inni?

Steffan ab Owain

**Rhifyn Bwletin Llên Natur 2008**


**Grifft sêr - dau gwestiwn**

1) Ai sbarion ar ôl i lyffant gael ei rheibio gan greÿr neu ddyfrgi yw grifft sêr? Onid ydi Hydref/Tachwedd (misoedd y gwneid llawer o'r cofnodion) yn rhy gynnar i ffurfio'r grifft a fydd yn cael ei fwrw ym mis Ionawr a Chwefror yn y rhan hon o'r byd? Mae'n debyg Debbie Evans (isod) dyddiedig 20 Oct yn cadarnhau bod y llyffant yn cario'i grifft o fis Hydref ymlaen o leiaf. Atebodd Debbie fel hyn: *I think this demonstrates that the female frog must be carrying the embryonic eggs and jelly much earlier than the spawning time, (presumably they develop before she goes in to hibernation over the winter). The jelly would only expand when out of the frog.* 2) Dydi "grifft sêr" (beth bynnag ydi'o) ddim yn arbennig o gysylltiedig â chynefin creÿr neu ddyrgi (megis canol cae?). Beth arall allasai fod? Debbie eto: *I would not worry too much about the herons as lots of other things eat frogs and would also avoid the jelly.* Ewch i Fwletin 11 i gael trafodaeth ac ychydig o Lên Gwerin gan Steffan ab Owain am y sylwedd rhyfedd hon.



**Rhifyn Bwletin Tachwedd 2011**

## Eira Dechrau Ionawr 2026 ar CYMUNED LLÊN NATUR



CYMUNED LLÊN NATUR

# Bwncathod a phryfed genwair

**Ar ôl trafod bwncathod yn camu'n fras i gael gafael ar bryfyd genwair (diolch i gyfraniad Greta Hughes) yn Glas 213, dyma fwy am un o'u "hoff" fwydydd.**



**Llun Dys Griffiths** ( Mynydd Hiraethog 6 Ionawr 2023)

7 Hydref - Gyrru ar ffordd Llanrug i Gaernarfon pnawn ma- yn y cae sydd wedi ei drin ar y dde rhwng pont Pontrug a bwyty Sopna, llwyth o adar ysglyfaethus ar draws y cae ac i gyd yn wynebu'r ffordd. Wedi sylwi un neu ddau yno o'r blaen ond roedd cymaint ohonyn nhw heddiw. Bechod nad oeddwn yn medru cael llun. Oes rywun arall wedi sylwi arnyn nhw? Bwncathod hwyrach? Golygfa ryfedd! **Sioned Mair Owen**

Mi fydda'i yn pasio'r fan yna yn aml iawn ond ni welais hyn yno. Mae nhw'n swnio fel bwncathod yn 'pori' am bryfed genwair. **Wele luniau Greta Hughes.** **DB**





Wedi pasio heddiw hefyd, ambell un yno ond dim gymaint â ddoe. Werth nodi hwyrach roedd hi'n bwrw ddoe ond ddim heddiw! Wyrach mwy o bryfaid genwair wrth wyneb y pridd mewn tywydd glawog?! **Sioned Mair Owen**

Cyfieithiad i Glas (GwglGyfieithu wedi ei olygu'n ysgafn) o lyfr am fwncathod:

"Un darn bach o'r llyfr, sy'n rhy ddiddorol i beidio â'i rannu yma, yw bod gan Fwncathod Cyffredin lwybrau berfeddol anarferol o hir ac, o'r herwydd, gallant fyw ar eitemau ysglyfaethus (fel mwydod daear) na fyddai'n darparu digon o faeth i'r rhan fwyaf o adar ysglyfaethus eraill. Mae'r awduron yn peintio lluniau bywiog i ddychymyg y darllenydd o Fwncathod Cyffredin sy'n edrych fel "croes rhwng bronfraith a hwyaden yn waglo" (tudalen 31) tra bod yr adar yn cerdded trwy gae sydd newydd ei aredig yn chwilota am fwydod daear, ac yn nodi bod yr aderyn wedi cael ei "gymharu i 'forwr meddw'" wrth chwilota am fwydod ar y ddaear (tudalen 70). yn ystod rhannau o'r flwyddyn." Mae'r llyfr yn mynd ymlaen i ryfeddu bod y Bwncathod Cyffredin yn chwilota am bryfed genwair gydag addasiadau ysglyfaethus (pig bachog, sodlau, golwg pellter hir) nad ydynt yn ddelfrydol ar gyfer strategaeth chwilota o'r fath. Ond mewn gwirionedd, mae pryfed genwair mor bwysig i ddeiet y Bwncath Cyffredin fel bod argaeledd yr infertebratau hyn yn ymddangos yn pennu symudiadau'r **Bwncath Cyffredin** weithiau yn ystod rhannau o'r flwyddyn. (5ed paragraff)

Dwi wedi gweld tri neu bedwar yn yr un sefyllfa mewn cae ger llyn Cwellyn. Dwi'n tybio nad oes angen i fwncathod gadw lleoliad prae prygenwair yn 'gyfrinachol' yn yr un modd ac mae'n talu iddyn nhw wneud efo cwningen. Mae pryfed genwair yn fwy gwasgarog a haws i'w lleoli na phrae arferol ac felly bwncathod eraill yn cystadlu llai am yr adnodd. Tybed ydi pryfed genwair yn 'ddargafyddiad' diweddar gan fwncathod gan cyn lleied o son sydd yna am hyn yn y llenyddiaeth? **DB**

# Y Bwrdd Pryfed


Diwedd 2025

**Y bwrdd pryfetach wedi bod yn llawn o bilipalas, Medi 2025.**

**Gwilym A Roberts**
















# Cymylau diwedd 2025




**Cymylau heddiw, Waunfawr 6/10/25.** **Gill Brown**

Sylwais innau arnyn nhw hefyd. Wedi achosi gan wyntoedd fœhn yn chwythu dros Eryri tua'r môr o'r de ddwyrain. Sylwais hefyd ar gymylau blew geifr (Cirrus) yr un pryd yn uchel yn yr atmosffer ac yn chwythu'n groes i wynt y *fœhn*. Mae'r cymylau blew geifr i'w gweld yn y llun uchaf. **DB**

Roeddwn yn cerdded Penmorfa/ West Shore Llandudno yn gynharach ac roedd yr amrywiaeth o gymylau yn syfrdanol ac yn creu patrwm. **Merian Parry Hughes**

Saw a lot of these LENTICULAR CLOUDS yesterday [dydd Sul] from the M54 Telford to Shrewsbury.

**Pauline Page-Jones**

Roeddwn um gweld y cymylau o caernarfon hyfryd iawn **Rosina Owen**


Pob math o gymylau ddoe lenticular a chynffonau merlod (cirrus) [6/10?] **Chris Barnes**

Roeddwn innau'n sylwi ar y rhain ddoe (Llun, 6 Hydref)- mwy ohonynt, a phob un yn fwy, nag arfer: sylwi gydol y prynhawn yn Sir Fflint, ac wedyn ar hyd y daith wrth yrru ar yr A55 o Sir Fflint at Ynys Mon, tua 1800h.


**Dafydd Morris**

Sylwon ninnau ar siapiau diddorol ddoe yng nghyffiniau Llanrug - fel amlinell mynydd yn yr awyr.

**Non Gwenhwyfar Tudur**



**Cwmwl Lenticular**
**i'r gogledd o Aberystwyth heddi**
[5ed, nid y 6ed] **Steff Rees**



**Dim cysylltiad â gogledd Cymru wrth gwrs – ond digon diddorol** Rhian James

# O Lyn Celanedd i'r dyfodol



**Coed Cerrig y Frân** Capsiwn: Coed Cerrig y Frân uwchlaw ffermdy Blaen-y-nant yn Nant Ffrancon. ***The Mushroom Garden*** *sydd ar y map.*



**Tryfan** Capsiwn: Ochr ddwyreiniol Tryfan gyda Llwybr Gwregys ar draws y canol, fel gwregys. ***Heather Terrace Path*** sydd ar y map.

**Yn dilyn yr erthygl am ymgyrch i gael yr enw Llyn Celanedd yn lle *The Spinnies* - Gweler Glas 214 (Rhagfyr 2025) - Dyma Ieuan Wyn yn dweud ei farn.**

**Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg - beirniadu 'agwedd drefedigaethol' yr Arolwg Ordnans**

Yn dilyn llwyddiant eu hymgyrch i gael yr enw Llyn Celanedd yn lle *The Spinnies* ar y warchodfa natur yn Aberogwen ger Tal-y-bont yn Arfon, mae grŵp o ymgyrchwyr lleol o Ddyffryn Ogwen a'r mudiad Cylch yr Iaith yn cychwyn ymgyrch newydd. Eu nod y tro hwn ydi gwarchod enwau lleoedd Cymraeg rhag cael eu disodli gan enwau Saesneg yn Eryri. Ar hyn o bryd, mae'r Arolwg Ordnans, yr asiantaeth fapio sydd â'i swyddfa yn Southampton, yn mynnu cynnwys enwau Saesneg naill ai yn lle enwau Cymraeg neu ochr yn ochr ag enwau Cymraeg. Amcan yr ymgyrchwyr ydi cael yr Arolwg Ordnans i newid eu polisi i ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig. Mae'r ymgyrchwyr wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu er mwyn atal y broses o ddisodli enwau cynhenid Cymraeg rhag cael eu disodli gan enwau Saesneg.

Fel enghreifftiau, mae'r ymgyrchwyr yn tynnu sylw at dri enw Saesneg yn benodol sydd ar fap ardal y Glyderau a Thryfan, lleoedd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol iddynt, sef *The Mushroom Garden* (Coed Cerrig y Frân), *The Nameless Cwm* (Cwm Cneifion) a *Heather Terrace Path* (Llwybr Gwregys).

Meddai Ieuan Wyn ar ran Cylch yr Iaith, "Mae'r Arolwg Ordnans yn cyfrannu i'r broses o ddisodli enwau hanesyddol Cymraeg gan enwau Saesneg yn yr amgylchedd naturiol, ac mae hyn yn warth. Mae polisi iaith presennol yr asiantaeth yn gwbl annerbyniol, a dylid ei newid yn ddiymdroi. Ein henwau lleoedd Cymraeg sy'n diffinio Cymru fel gwlad wahanol, a dylid eu parchu a'u defnyddio fel rhan hanfodol o'n hetifeddiaeth genedlaethol. Byddwn yn cysylltu gyda chyrff Cymraeg cenedlaethol a'r gwleidyddion i ofyn am eu cefnogaeth i ddwyn pwysau ar yr Arolwg Ordnans i newid eu hagwedd drefedigaethol. Yr un agwedd yn y gorffennol roddodd yr enw *Victoria Falls* ar raeadr Mosi-oa-Tunya yn Affrica, ac *Ayers Rock* ar Uluru yn Awstralia."

Bydd Cylch yr Iaith yn cydweithio gyda grŵp ym Methesda a'r cyffiniau, ac meddai Emyr Roberts, cydlynydd yr ymgyrch yn lleol, "Fel yn achos y frwydr i gael Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i roi'r enw Llyn Celanedd yn lle *The Spinnies* yn Aberogwen, byddwn yn gwahodd unigolion a cymdeithasau ynghyd â chynghorau cymuned Gwynedd i ymuno efo ni eto er mwyn cryfhau'r alwad ar yr Arolwg Ordnans i newid eu polisi amharchus, a rhoi statws llawn i enwau lleoedd Cymraeg cynhenid."

# A baw be' di hwn?

**Derfydd aur, derfydd arian..... ond ni dderfydd baw ci - ag eithrio baw gwyn**

■ **Gafr**




A baw be' di hwn?

Llwynog faswn i'n cynnig - anifail sy'n arfer bwyta celanedd gan gynnwys yr esgyrn a blew bras (gafr wedi marw?). Dyna sut mae peth ohono'n wyn. Ydych chi'n cofio ers talwm baw ci gwyn ymhobman. Byth yn ei weld heddiw - pawb yn bwydo eu cwn efo bwyd diasgwrn o silffoedd yr archfarchnad (a hwnnw gyda llaw wedi ei chwyddo efo deunydd llysieuol i blesio nid cŵn ond perchnogion syn ceisio twyllo eu hunain bod cwn yn llysieuol go iawn!!)

**Llên Natur**

**Llên Natur** - Aaa, gwneud synnwyr! Yn cytuno am y baw ci... Glywish i rywun yn son am fwydo bwyd figan i'w ci diwrnod o' blaen... Mae'r byd 'ma'n le rhyfadd 'di mynd. **Llinos Griffin**

Roedd cachu ci gwyn ar gongol bob stryd ers talwm (cachu gwyn, nid wedi ei gachu gan gi gwyn) (am 'wn i, er, mae cŵn gwyn yn cachu hefyd tydi). Roedd o dipyn llai amhleserus i sefyll ynddo na cachu ci cyffredin, os oes fath beth, yn crenshian ac yn chwalu'n bowdwr ddi-arogl. Roedd o hefyd yn arf defnyddiol i'w daflu ar giangs o'r strydoedd cyfagos a feiddia mentro i'n tiriogaeth ni!!! Tybed os ydi cachu cŵn rhai o wledydd y dwyrain pell yn wyn o ganlyniad i fwyta esgyrn gweddillion o'r diwydiant cig ci? (Blasus tu hwnt gyda llaw). **Dafydd Dyn Blin**

A dyma gair rhegu'r Llydawyr: ***"Kaoc'h ki"*** a'i estyniad, *"Kaoc'h ki gwenn kac'het gant ur c'hi du !"* [kox ki gwɛn: kaxɛt gen or hi dy]- **Nid oes angen gyfieithiad** o gwbl, 'dwi'n credu. **DK**

# Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!


Glas

Llên natur Cymdeithas Edward Llwyd

Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

## Nid goleuadau ydi'r rhain




Wnaeth Jackie Willmington rhannu'r eitem hwn Gyda CYMUNED LLEN NATUR ar Facebook: Llun thermal o'r drudwy'n clwydo dan y pier yn Aberystwyth. **Jackie Willmington**

*The lights (Starlings) under the Pier at Aberystwyth are quite bright this year. And brightest in February. Pics taken with my thermal imaging camera. I plan to do some more end of January so we can see the difference in numbers.* **David Brian Williams**

## Lluniau Alun Williams



**Corhwyaid sydd yma, Moel Famau yn y pellter. 17 Rhagfyr 2025**




**Corhwyaid eto, gyda tylluan glustiog ar y chwith.**

# Glas i Siaradwyr Newydd

## Dysgwch am y byd natur




## Sgyrsiau byr, trafodaethau: iaith lafar




## Dolenau i'ch helpu




## Dysgwch enwau anifeiliaid a phlanhogion



## Cymraeg syml





## Adnoddau arbennig Llên Natur




## Dysgwch am ffeithiau diddorol




## Dysgwch am hanes leol




## Dysgwch wrth deithio gyda Chymdeithas Edward Llwyd




## bwletinglas.llennatur@gmail.com




Cymdeithas Edward Llwyd

Llên natur

Siaradwr newydd

Bathodyn Paned Cymru